

Comisiwn Cyfalaf: Cyd-destun Coridor yr Afon a'r Senario

Cyflwyniad

Mae *Cydlifiad* eisiau gosod y comisiwn hwn o fewn gosodiad a chyd-destun coridor yr afon yn Hwlfordd. Bydd y comisiwn yn rhoi cyfle i'r artist dewisedig wneud darn o waith celf gyhoeddus sydd ag effaith amlwg, ac sydd nid yn unig yn arddangos y berthynas rhwng pobl a lle maent yn byw, ond sydd hefyd yn dod â chipolwg newydd ac yn dangos sut gall celf fod yn rym i sbarduno newid a thrwy hynny gyfrannu ar nifer o lefelau at 'adfywiad'.

Mae'r comisiwn wedi'i gynllunio ar amser diddorol, ar drothwy cynlluniau ar gyfer ail-ddatblygu nifer o safleoedd allweddol ar hyd yr afon, gan gynnwys hen farchnad Glan yr Afon: a Chanolfan Siopa Glan yr Afon, a allai ddylanwadu ar y cyfeiriad mae'r artist yn ei gymryd wrth ddatblygu'r gwaith.



Y Model Mawr: Model rhyngweithiol o ardal glan yr afon Hwlfordd, a roddodd cyfle i Confluence ymgysylltu â'r cyhoedd. Golwg model yn edrych i'r de trwy'r dref.

Efallai bydd yr artist yn dewis ymateb i agweddau o'r gwaith ymchwiliol a wnaeth

Confluence trwy raglen arbrofol y 'Lab'. Un o'r themâu hyn yw cysylltu safleoedd gwahanol, mannau hamdden a lleoliadau 'cudd' yng nghoridor yr afon, trwy barc hifain gyda llwybrau cerdded a llwybrau beic trwy fannau gwyrdd a fyddai'n cysylltu canol y dref â'r cynefin naturiol cyfagos a'r ardaloedd siopa a hamdden/preswyl mwy ffiniol. Mae creu parc hifain yn gyfle mawr i uno pobl a'u hail-gysylltu â'r afon.

Mae ail-ddatblygu adeiladau gwag a mannau sydd ddim yn cael digon o ddefnydd yn amcan canolog a chysylltiedig arall. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cael ei archwilio drwy'r thema 'perchnogaeth', sy'n cwmpasu mynediad at ddefnydd, yn ogystal â 'civitas'; meithrin y teimlad o berthyn 'dinesig' sydd â'r potensial i annog cysylltiad â lle. Fel trosiad defnyddiwyd 'Agora'; y 'farchnad' yn hen Athens a oedd nid yn unig yn ganolbwynt i fasnach, ond hefyd yn lle pwysig i fywyd crefyddol a deallusol.

Mae gennym ddiddordeb yn y trosiad hynafol hwn (ond un sy'n cydnabod ac yn dathlu gwahaniaeth) oherwydd ei fod yn rhoi awgrym i ni o sut y gallai gweledigaeth gyfunol ystyrion (Cynllun y Bobl) gyflawni model mwy amrywiol ac felly mwy cynaliadwy ar gyfer adfywio'r dref sirol. Trwy 'weld y dref yn wahanol' rydym yn anelu at newid canfyddiadau pobl o Hwlfordd, ac wrth wneud hynny agor ffyrdd newydd o feddwl sy'n archwilio sut yr ydym yn byw, yn gweithio, yn chwarae, yn dysgu ac yn ymweld â'r dref nawr ac yn y dyfodol.

Mae afon Cleddau yn nodwedd gyson ac allweddol yn hanes y dref, ond mae wedi cael ei dofi, ei dirymu, ei chamlesu a'i hadeiladu arni yng nghanol Hwlfordd ac yn y pen draw fe'i gwahanwyd oddi wrth y dref a'i phobl.

Ysgogwyd hyn gan ddatblygiadau newydd ar hyd y gorlifdir a'r angen am amddiffynfeydd rhag llifogydd. Nid oes posib osgoi'r rhagfynegiadau a nodir mewn adroddiadau sy'n defnyddio ymchwil gyfredol i newid yn yr hinsawdd, gan bwyntio at lanw brig uwch gyda chynnydd sylweddol yn y tebygolrwydd o lifogydd helaeth yn y degawdau i ddod. Mae hyn yn galw am ffyrdd newydd o feddwl ynghylch sut mae'r amgylchedd adeiledig o fewn coridor yr afon yn cael ei addasu i gwrdd â'r her newydd hon.

Roedd unwaith yn borthladd llanwol ffyniannus a phrysur, yn lle masnach a

diwydiant a dyfodd o gwmpas yr afon fel tramwyfa, yn gwasanaethu'r rhanbarth a'i gysylltu â'r byd, mae'r afon nawr yn ymddangos yn rhyfeddol o lonydd. Nid yw masnach y gorffennol wedi cael ei disodli gan y gweithgareddau chwaraeon dŵr, hwylio a hamdden cyfoes a geir yn y rhan fwyaf o drefi arfordirol ac aberol.

Rhaid cyfaddef bod y dref yn bell o'r arfordir, ond mae ei lleoliad yng nghanol y sir, ac ar ben pellaf hyd y llanw sy'n arwain at dirwedd aber trawiadol yn un o'r porthladdoedd dŵr dwfn mwyaf yn y byd - yn arwain at y cwestiwn- beth ydym yn ei golli yma?

Efallai ei bod hi'n amlwg mai'r afon yw'r ased sy'n cael ei thanddefnyddio mwyaf, a'r ased sydd hefyd â'r potensial mwyaf.



Yr Hen Bont: ail-gysylltodd y dref â'i hafon ar gyfer y ras rafftau ym mis Awst 2016. Digwyddiad a gafodd ei ail-ddechrau yn 2015 wedi bwlch o nifer o flynyddoedd.

Y gosodiad

Mae afon Cleddau yn llifo o'r gogledd i'r de drwy Hwlffordd, mae'r Castell a'r hen dref yn edrych allan drosti, sy'n codi'n serth o'r afon i'r gorllewin gyda datblygiadau mwy diweddar. Mae ffyrdd newydd a chanolfannau siopa wedi'u hadeiladu ar yr hyn a oedd unwaith yn gorstir llanw yn y gorfdir i'r dwyrain.



Glan yr afon wrth Bridge Meadow: perl cudd 5 munud yn unig i ffwrdd o ganol y dref.

Gellir categorio daearyddiaeth a nodweddion newidiol yr afon mewn cyfres o 'rannau' wrth i afon Cleddau nesáu at y dref a llifo drwyddi.

- Bridge Meadow: y rhan uchaf uwchben canol y dref
- Rhan y Dref: wedi'i amgáu rhwng yr Hen Bont a'r Bont Newydd.
- Y Ceiau: glanfeydd llanw uwchlaw ac islaw cored y dref: Neuadd y Sir a chaeau chwarae Picton gyferbyn, ac yn cynnwys adfeilion y Priordy i'r de.
- Fortune's Frolic a'r Morfeydd Heli: lle hamdden a moryd llanw naturiol wedi'i thorri i ffwrdd oddi wrth y dref gan bontydd ffyrdd a rheilffyrdd i'r gogledd ac yn dod i ben lle mae nant Myrddin yn ymuno â'r brif afon lle mae'r dirwedd aberol yn dechrau.



Yr olygfa o'r 'Frolic': yr aber llanw

Mae gan bob rhan o'r afon ei chymeriad arbennig ei hun, gydag amrywiaeth o asedau sydd ddim yn cael eu defnyddio'n ddigonol - a allai gael eu cysylltu'n well mewn cynllun cynhwysfawr. Ceir nifer o adeiladau gwag mewn lleoliadau strategol o fewn cyrraedd i'r dref ac ar hyd y Ceiau, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer newid a mwy o ymgysylltu â'r afon.

Senario

Mae'r comisiwn yn anelu at ymchwilio i'r cyfleoedd i wella'r amgylchedd adeiledig ac i ailgysylltu'r dref ag ymyl y dŵr, gyda'r syniad o annog gweithgareddau rhaglennol a all gefnogi cymunedau newydd a bywiog ar lan yr afon, a 'llunio lleoedd' trwy ymyriadau pendant ar raddfa fach a mawr.

Bwriadwyd hwn i fod yn frîff agored o fewn proses gomisiynu dau gam a fydd yn caniatáu i syniadau cychwynol gael eu profi, cyn cytuno i'r gwaith celf arfaethedig gael ei weithredu o fewn yr amserlen sydd ar gael.

CE